



# Gwella Cydraddoldeb Hiliol ym maes Addysg

## Cefndir

Mae Llywodraeth Cymru am gyhoeddi Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb hiliol ac ethnig strwythuol yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2020a). Mae'r briff polisi hwn yn crynhoi un o chwe adroddiad a luniwyd gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru i roi dystiolaeth annibynnol i lywio gwaith datblygu'r cynllun gweithredu. Mae'n trafod dystiolaeth ac argymhellion ar gyfer gweithredu sy'n ymwneud â chydraddoldeb hiliol yn y byd addysg.

## Cyflwyniad

Mae'r system addysg yn rhoi breintiau ac anfanteision i hiliau a lleiafrifoedd ethnig penodol yng Nghymru. Mae hyn yn amlwg mewn pethau fel bylchau cyrhaeddiad ar draws grwpiau hiliol ac ethnig penodol, cyfraddau gwaharddiad anghymesur, a phrofiadau o hiliaeth ymhliith myfyrwyr a staff (ee Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth, 2020a).

Mae nifer o gamau wedi'u cymryd eisoes i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb hiliol yn y system addysg yng Nghymru, gan gynnwys camau a amlinellir yn *Ein Cenhadaeth Genedlaethol* i leihau'r bwlcwyr cyrhaeddiad ac i gael system addysg decach (Llywodraeth Cymru, 2020b). Yn fwyaf nodedig, mae hyn yn cynnwys cyflwyno'r Cwricwlwm ar gyfer Cymru 2022, mewn ymgynghoriad â'r *Grŵp Cynghori Cymunedau*,

*cyfraniadau a chynefin: Prosiadau BAME a'r cwricwlwm newydd* (Llywodraeth Cymru, 2020c).<sup>1</sup>

Mae'r briff polisi hwn yn nodi camau i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb hiliol mewn iechyd a gofal cymdeithasol, sy'n cael ei grybwyl yn aml mewn astudiaethau academaidd ac adroddiadau polisi. Maent yn cynnwys camau gweithredu i ymgorffori amrywiaeth a chynhwysiant hiliol ac ethnig yn fwy effeithiol mewn deg maes allweddol.

## Recriwtio'r gweithlu

Mae buddion cael gweithlu addysg amrywiol wedi'u dogfennu'n dda (ee Goldhaber, Theobald a Tien, 2015). Fodd bynnag, mae rhai grwpiau ethnig a grwpiau hil yn parhau i fod heb gynrychiolaeth ddigonol yn y maes addysgu yng Nghymru o'i gymharu â'r boblogaeth gyffredinol (Cyngor y Gweithlu Addysg, 2020)

## Argymhellion

- Neilltu amser ac adnoddau i sicrhau amrywiaeth, a sicrhau cynhwysiant wrth recriwtio.
- Gwella llythrennedd hiliol o fewn ymgyrchoedd recriwtio a chyfathrebu sy'n hyrwyddo addysgu (ee Darganfod Addysgu).

<sup>1</sup> Nid yw camau i adolygu'r cwricwlwm ac adnoddau addysg i adlewyrchu hanesion, diwylliannau a diddordebau mwy amrywiol wedi'u cynnwys gan fod hyn eisoes ar y gweill yn adolygiad cwricwlwm yr Athro Charlotte Williams.

- Sicrhau bod paneli reciwtio a dethol yn amrywiol ac yn gynrychioliadol.
- Ystyried mesurau reciwtio sy'n seiliedig ar berthynas a phartneriaeth, fel reciwtio cynnar neu fentrau 'tyfu'ch cynhaliaeth eich hun'.
- Cynnig mentora a chefnogaeth gymdeithasol i bob athro o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.
- Cynnwys mesurau amrywiaeth a chynhwysiant fel mein prawf llwyddiant wrth reciwtio, dewis, hyrwyddo, datblygu, cynllunio olyniaeth a chadw athrawon.

## Hyfforddiant a datblygiad proffesiynol y gweithlu

Yng Nghynllun Datblygu'r Gweithlu Cenedlaethol (2019-21), mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod na all ein system addysg 'fod yn well nag ansawdd ei hathrawon' (2019, t.6). Er mwyn diwallu anghenion disgylion o bob cefndir, mae hyn yn golygu bod yn rhaid i hyfforddiant proffesiynol feithrin athrawon sy'n llythrennog yn hiliol sy'n gallu darparu addysgeg sy'n ymateb yn ddiwylliannol, yn ogystal ag arallgyfeirio'r gweithlu addysg (Ladson-Billings, 2014).<sup>2</sup>

### Argymhellion

- Cynnwys ymwybyddiaeth o ragfarnau a stereoteipiau ar sail hil a myfyrio arnynt mewn hyfforddiant athrawon; a'u heffaith ar agweddu, ymddygiad a disgwyliadau.
- Dangos agwedd wrth-hiliol wrth hyfforddi, a sicrhau dealltwriaeth effeithiol o wynder, mewn ffordd sy'n cefnogi hunan-fyfyrion a herio.
- Cefnogi athrawon trwy gynnig hyfforddiant ar gyfathrebu disgwyliadau cadarnhaol ac uchel ar gyfer disgylion Du ac ethnigrwydd Cymysg yn yr ystafell

ddosbarth (sy'n aml yn profi mwy o anfantais), ac wrth ymgymryd â chamau disgylu a bugeilol.

Cynnwys arferion cydraddoldeb hiliol fel rhan o ddatblygiad proffesiynol blynnyddol athrawon; dylai athrawon gymryd rhan mewn hyfforddiant perthnasol a chael eu hasesu'n rheolaidd gan ddefnyddio egwyddorion gwrth-hiliol.

- Rhoi'r gallu i athrawon herio a delio â digwyddiadau hiliol, a chefnogi disgylion sy'n cael eu targedu gan hiliaeth a throseddau casineb yn effeithiol trwy hyfforddiant.

## Rhagleni cymorth ar gyfer myfyrwyr o leiafrifoedd ethnig

Dylid archwilio a gwerthuso ffyrdd o sicrhau effeithiolrwydd rhagleni cymorth ac ymyriadau sy'n canolbwytio ar brofiadau a chanlyniadau addysgol ar gyfer myfyrwyr lleiafrifoedd ethnig, gan gynnwys dulliau cyflawnader adferol. Gall rhagleni cymorth a dulliau cyflawnader adferol fod yn arbennig o fuddiol i ddynion Duon, sy'n cael eu heffeithio'n anghymesur o ran cael eu gwahardd o'r ysgol ac sydd fwyaf tebygol o fynd 'o'r ysgol i'r carchar' (Graham, 2016; Brentnall, 2017).

### Argymhellion

- Sicrhau bod unrhyw ragleni neu ymyriadau cymorth i fyfyrwyr yn canolbwytio ar ganlyniadau ac yn seiliedig ar asesiad trylwyr o'r sylfaen dystiolaeth.
- Ystyried nodweddion mentoriaid a diddordebau a rennir wrth ddylunio a darparu rhagleni mentora. Mae angen eu teilwra'n ddiwylliannol a cheisio ymgysylltu â theuluoedd myfyrwyr.

<sup>2</sup> Mae addysgu diwylliannol ymatebol (neu berthnasol) yn cyfeirio at 'addysgeg sy'n grymuso myfyrwyr yn ddeallusol, yn gymdeithasol, yn emosiynol ac yn wleidyddol trwy ddefnyddio cyfeirydion diwylliannol i rannu gwybodaeth, sgiliau ac agweddu' (Ladson-Billings, 1994, t. 382).

- Ystyried ffactorau croestoriadol (ee rhyw, cyfeiriadedd rhywiol) ochr yn ochr â hil wrth gyflawni ymyriadau.
- Cynnwys hyfforddiant mentor neu achrediad digonol wrth ddylunio a darparu rhaglenni mentora.
- Cynnal rhagor o werthusiadau effaith i ymchwilio i effeithiolrwydd rhaglenni ac ymyriadau o fewn is-grwpiau lleiafrifoedd ethnig gwahanol, gan gynnwys bechyn nad ydynt yn Ddu a merched o leiafrifoedd ethnig.

## Lleihau gwaharddiadau parhaol a dros dro

Mae'n rhaid blaenoriaethu ceisio lleihau gwaharddiadau dros dro a pharhaol ar gyfer plant a phobl ifanc Du, Asiaidd a Lleiafrifol o leoliadau addysg brif ffrwd yng Nghymru, o ystyried anghymesuredd hiliol sy'n bodoli mewn gwaharddiadau, a'r risg gynyddol sy'n gysylltiedig â throseddu diweddarach a chanlyniadau negyddol eraill (Graham, 2016; Brentnall, 2017).

Mae casglu data amser real ar waharddiadau a manylion am ethnigrwydd yn hanfodol er mwyn monitro patrymau gwahaniaethu posibl (Brentnall, 2017), ac mae'n bwysig gwahanu'r data yn ôl gwahanol is-grwpiau ethnig.

## Argymhellion

- Casglu data amser real ar waharddiadau sy'n cadw cofnod o bob plentyn, gan gynnwys ei is-grŵp ethnig, er mwyn nodi patrymau gwahaniaethu posibl ac i fynd i'r afael â nhw.
- Sicrhau bod data yn cael ei rannu'n briodol gyda Byrddau Diogelu Plant Lleol, Partneriaid Diogelu, a rhanddeiliaid eraill, er mwyn sicrhau cefnogaeth briodol.
- Rhoi cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i weithio'n agos gydag ysgolion i adolygu gwybodaeth a thuiddiadau, gan weithredu

lle bo angen, a darparu dewisiadau amgen.

- Cynnig dewisiadau amgen i blant, megis cyfnod 'hawl i ddychwelyd', fel rhan o broses y gellir ei hamddiffyn o ran gwneud penderfyniadau am waharddiadau.
- Ystyried dulliau cyfiawnder adferol fel ffordd bosibl o reoli ymddygiad heriol ac unrhyw wrthdaro, ac i leihau gwaharddiadau.

## Polisiau ysgol

Mae cydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a dyletswyddau penodol ar gyfer Cymru (PSED) yn ofyniad cyfreithiol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a rhaid i ysgolion gyflawni'r dyletswyddau statudol hyn. Dylent fod â chynlluniau cydraddoldeb strategol a fframweithiau polisi sy'n atblygol (Hancock, 2007; Parken, 2010), ac sy'n cael eu gwerthuso a'u hadolygu'n rheolaidd. Mae hyn yn hanfodol wrth feithrin systemau ysgolion, sefydliadau ac amgylcheddau sy'n hyrwyddo cydraddoldeb hiliol.

Mae'r dogfennau hyn yn chwarae rhan sylweddol yn y ffordd y mae ysgolion yn gweithredu ac felly dylent sicrhau bod cydraddoldeb hiliol yn cael ei ymgorffori a'i normaleiddio ynddynt (Alexander, Weekes-Bernard ac Arday, 2015; Gillborn, 2008). Dylent fynd i'r afael â phrofiadau staff lleiafrifoedd ethnig, yn ogystal â myfyrwyr. Er mwyn osgoi symboleiddiaeth, mae'n bwysig bod cydraddoldeb hiliol yn 'edefyn aur' sy'n rhedeg trwy holl bolisiâu'r ysgol, a bod y dogfennau hyn wir yn adlewyrchu angen lleol.

## Argymhellion

- Sicrhau bod cydraddoldeb hiliol yn edefyn aur sy'n rhedeg trwy holl bolisiâu'r ysgol fel ei fod yn dod yn rhan o'r 'brif ffrwd', yn ogystal â datblygu a gweithredu polisi amrywiaeth a chynhwysiant penodol o ran hil ac ethnig.

- Cynnal adolygiadau rheolaidd o holl bolisiâu a strategaethau ysgolion i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r amcan o sicrhau cydraddoldeb hiliol, ac i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n effeithiol.
- Cynnwys myfyrwyr a rhieni/gofalwyr yn y broses o gyd-greu, adolygu a gweithredu polisiâu amrywiaeth a chynhwysiant.
- Sicrhau bod systemau cadarn ar waith mewn ysgolion ar gyfer rheoli digwyddiadau hiliol, a bod y rhain yn hygyrch ac yn cael eu cyfleu i rieni a gofalwyr.
- Comisiynu adolygiad Llywodraeth Cymru o brosesau cwynion mewn ysgolion, gan ganolbwytio'n benodol ar reoli digwyddiadau hiliol ac atal/mynd i'r afael â throseddau casineb.
- Ystyried dulliau cyflawnder adferol wrth geisio datrys a/neu gwneud iawn mewn perthynas â digwyddiadau hiliol a throseddau casineb, gyda pholisiâu a phrosesau'r ysgol yn canolbwytio ar brofiad a lles y dioddefwr neu'r targed.
- Sicrhau bod gan ysgolion yr arweiniad a'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i'w cefnogi i ddatblygu a gweithredu polisiâu amrywiaeth a chynhwysiant effeithiol.

## Cyfundrefnau arolygu ysgolion

Mae cyfundrefnau, fframweithiau ac arferion arolygu ysgolion yn ffordd bwysig o ddwyn ysgolion i gyfrif ar gyfer cyrraedd y safonau gofynnol, gan gynnwys mewn perthynas â mynd i'r afael ag anghydraddoldebau hiliol. Gellir defnyddio hyfforddiant perthnasol wedi'i dargedu ar gyfer arolygwyr ysgolion (Brentnall, 2020), yn ogystal â gwerthuso fframweithiau cyfredol ac yn y dyfodol, i wella sut mae cyfundrefnau arolygu ysgolion yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau. Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 Estyn yn cynnwys amcan i werthuso materion cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ystod arolygiadau (Estyn, 2020), ac mae Estyn (2017) wedi cyhoeddi canllawiau ar beth

i'w werthuso a sut. Gallai hyn ddarparu mesur o atebolrwydd a chyngor i ysgolion gydymffurfio â dyletswyddau cyfreithiol a hyrwyddo cydraddoldeb hil. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod hyn yn cael ei ystyried yn rhan o'r brif ffrwd yn y broses arolygu, yn hytrach nag fel elfen ychwanegol neu ddewisol (Osler a Morrison, 2002).

## Argymhellion

- Asesu amrywiaeth a chynhwysiant hiliol fel blaenoriaeth ochr yn ochr â chyrhaeddiad academiaidd o fewn fframweithiau arolygu ysgolion, er enghraifft trwy weithredu Cynllun Cydraddoldeb Strategol Estyn 2020-2024 yn llwyddiannus.
- Gwahaniaethu rhwng profiad a chanlyniadau is-grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn yr arolygiadau hyn, yn ogystal â rhwng myfyrwyr Gwyn Prydeinig a myfyrwyr o grwpiau hil/lleiafrifoedd ethnig.
- Ceisio nodi a chyfleu arfer da mewn arolygiadau ysgolion mewn ffordd sy'n hwyluso ac yn cefnogi ei ddefnydd yn ehangach.

## Casglu, monitro ac adrodd ar ddata

Mae'r angen i strategaethau cydraddoldeb hiliol sy'n gysylltiedig ag addysg gael eu targedu a'u gyrru gan ddata yn cael ei fynegi'n aml mewn argymhellion adolygu (ee Brentnall, 2017), strategaeth (ee yr Adran Addysg, 2018a; Llywodraeth Cymru, 2019), a'r llenyddiaeth ehangach (ee Carter Andrews et al., 2018).

Yn ogystal â chategoreiddio data ethnigrwydd yn fwy llym mewn perthynas â newidynnau sy'n gysylltiedig ag addysg ('beth'), mae hefyd angen monitro data yn rheolaidd ('pryd') (DfE, 2018b), gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau ansodol a meintiol ('sut') er mwyn gwerthuso'n ystyrlon (Parken et al., 2019; Llywodraeth Cymru, 2019).

## Argymhellion

- Adolygu'r ffordd mae data ethnigrwydd yn cael ei gasglu mewn addysg er mwyn canfod unrhyw fylchau allweddol – megis digwyddiadau hiliol – a blaenoriaethau ar gyfer casglu ac adrodd ar ddata yn y dyfodol.
- Galluogi gwahaniaethu yn ôl hunaniaethau lleiafrifoedd ethnig penodol wrth gasglu data, yn ogystal ag yn ôl nodweddion gwarchodedig eraill, er mwyn gallu cael dadansoddiad croestoriadol.
- Defnyddio amrywiaeth o ddulliau ansoddol a meintiol i gasglu data, er mwyn gwerthuso'n ystyrlon.

- Ystyried data yn unol ag is-grwpiau ethnig a newidynnau croestoriadol perthnasol eraill.
- Gweithio i fynd i'r afael â ffactorau posibl sy'n cyfyngu ar gyflawniad myfyrwyr Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, gan gynnwys ymarferion addysgu a dysgu, ac aflonydu hiliol.

## Blynnyddoedd cynnar

Mae darpariaeth addysg blynnyddoedd cynnar yn parhau i fod yn waith sydd ar y gweill o ran mynediad a chanlyniadau ar gyfer plant a theuluoedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, a disgylion Du yn benodol, sy'n dangos cyrhaeddiad is na disgylion Gwyn Prydeinig yn ystod addysg blynnyddoedd cynnar (EHRC, 2018). Fodd bynnag, prin iawn yw'r dystiolaeth yngylch achosion y gwahaniaeth hwn a sut y gellir mynd i'r afael â nhw.

## Argymhellion

- Comisiynu ymchwiliad Llywodraeth Cymru a buddsoddi mewn hyfforddiant gwrth-hiliol ar gyfer ymarferwyr blynnyddoedd cynnar.
- Annog darparwyr blynnyddoedd cynnar i rannu arfer gorau o ran mynd i'r afael ag anghydraddoldebau hil yn y sector.
- Cefnogi athrawon blynnyddoedd cynnar Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig i ddatblygu o fewn y proffesiwn.

## Polisi addysg cenedlaethol

Er mwyn creu Cymru Fwy Cyfartal, mae'n hanfodol bod perspectif cydraddoldeb yn rhan o'r brif ffrwd wrth lunio polisiau (Parken, 2018). Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cymryd camau yn y cyfeiriad hwn, yn enwedig mewn perthynas â rhyw, ond mae lle pellach i ymgorffori gwrth-hiliaeth yn y polisi addysg (Rhoi'r Cerdyn Coch i Hiliaeth, 2020b).

## Addysg bellach ac uwch

Mae pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o fynychu'r brifysgol na phobl o gefndiroedd Gwyn, ond mae pobl o gefndiroedd Gwyn yn fwy tebygol o fynychu prifysgolion tariff uchel ac yn fwy tebygol o dderbyn graddau dosbarth cyntaf na'r holl grwpiau ethnig eraill (Canolfan Cyfiawnder Cymdeithasol, 2020). Mae'r rheswm dros y gwahaniaeth hwn yn parhau i fod yn anesboniadwy, er y gall arferion addysgu ac asesu chwarae rôl (Canolfan Cyfiawnder Cymdeithasol, 2020).

Mae dystiolaeth hefyd o aflonyddu hiliol helaeth tuag at staff a myfyrwyr lleiafrifoedd ethnig ar draws prifysgolion y DU, gyda thystiolaeth ddiweddar hefyd yn awgrymu bod gan staff prifysgolion ddiffyg hyder i herio digwyddiadau o'r fath (EHRC, 2019; Universities UK, 2020).

## Argymhellion

- Mynd ar drywydd cydraddoldeb hiliol ym mhob maes ym mywyd prifysgol, gan gynnwys mynediad, cadw, cynnydd, cyflawniad a phrofiad myfyrwyr a staff, yn hytrach na bod yn gyfyngedig i fynediad at sefydliadau addysg uwch.

Gall polisiau sy'n methu ag archwilio rhagdybiaethau heb eu cydnabod sydd wedi'u hymgorffori mewn fframweithiau polisi atgyfnerthu rhaniadau cymdeithasol ac economaidd (Parken et al., 2019). Bydd proses atblygol sy'n cynnwys llunwyr polisi, academydd, sefydliadau cydraddoldeb ac 'arbenigwyr yn ôl profiad' (fel y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud trwy ei Grŵp Llywio Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol) yn helpu i fynd i'r afael â hyn a sicrhau bod cydraddoldeb yn rhan o'r brif ffrwd mewn polisi ac ymarfer (Parken et al., 2019).

## Argymhellion

- Llunwyr polisi i weithio'n atblygol ac yn gydweithredol gydag arbenigwyr academydd, sefydliadau cydraddoldeb, ac 'arbenigwyr yn ôl profiadau bywyd'.
- Galluogi casglu data sy'n llywio'r broses o lunio polisiau i archwilio rhwystrau croestoriadol a gwahaniaethau rhwng isgrwpiau ethnig.
- Llunwyr polisi addysg i weithio ar y cyd â llunwyr polisi mewn meysydd croestoriadol a blaenoriaeth eraill (ee cyfiawnder troseddol, tai, iechyd a gofal cymdeithasol) i ddatblygu polisiau hygyrch, cynhwysol, cynaliadwy yn ariannol, cynhwysol ac addasadwy.
- Nodi marcwyr llwyddiant y gellir eu gwerthuso wrth eu gweithredu trwy adolygiad sy'n mynd rhagddo.
- Cynnwys mesurau ansoddol a meintiol wrth werthuso polisi.

## Llyfryddiaeth

Alexander, C., Weekes-Bernard, D., ac Arday, J. (2015). **Introduction: Race and education—contemporary contexts and challenges**, yn Alexander, C., Weekes-Bernard, D., ac Arday, J. (eds) *The Runnymede School Report: Race, Education and Inequality in Contemporary Britain*. Llundain: Runnymede Trust. Cychwyd

o:

[www.runnymedetrust.org/uploads/The%20School%20Report.pdf](http://www.runnymedetrust.org/uploads/The%20School%20Report.pdf)

Brentnall, J. (2017). **Hybu ymgysylltiad a chyflawniad academaidd ar gyfer disgyblion o ethnigrwydd du a chymysg yng Nghymru**. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Cychwyd o: <https://llyw.cymru/rhwystrau-rhag-dysgu-wynebir-gan-ddysgwyr-o-ethnigrwydd-du-chymysg-adroddiad>

Brentnall, J. (2020). **Actions needed to address issues affecting Black and Mixed ethnicity school pupils – a focus on Wales**: Rhesr ddilynol o gamau gweithredu i'r adroddiad annibynnol: 'Identifying issues affecting Black and Mixed ethnicity school pupils – a focus on Wales. Heb ei gyhoeddi.

Carter Andrews, D. J., Castro, E., Cho, C. L., Petchauer, E., Richmond, G., a Floden, R. (2018). **Changing the Narrative on Diversifying the Teaching Workforce: A Look at Historical and Contemporary Factors That Inform Recruitment and Retention of Teachers of Colour**. *Journal of Teacher Education*, 70(1), 6-12.

Y Ganolfan Cyfiawnder Cymdeithasol. (2020). **Facing the Facts: Ethnicity and Disadvantage in Britain: Disparities in education, work and family**. Cychwyd o: <https://www.centreforsocialjustice.org.uk/core/wp-content/uploads/2020/11/CSJJ8513-Ethnicity-Poverty-Report-FINAL.pdf>

Yr Adran Addysg (2018a). **Statement of intent on the diversity of the teaching workforce – setting the case for a diverse teaching workforce**. Cychwyd o:

[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/747586/Statement\\_of\\_intent\\_on\\_the\\_diversity\\_of\\_the\\_teaching\\_workforce.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/747586/Statement_of_intent_on_the_diversity_of_the_teaching_workforce.pdf)

Yr Adran Addysg (2018b). **DfE Statistics: Developing DfE Statistics in 2018**. Cychwyd o:

[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/747586/Statement\\_of\\_intent\\_on\\_the\\_diversity\\_of\\_the\\_teaching\\_workforce.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/747586/Statement_of_intent_on_the_diversity_of_the_teaching_workforce.pdf)

[https://data/file/682865/Developing\\_DfE\\_Statistics\\_in\\_2018.pdf](https://data/file/682865/Developing_DfE_Statistics_in_2018.pdf)

Cyngor y Gweithlu Addysg. (2020). **Ystadegau Blynnyddol ar gyfer y Gweithlu Addysg yng Nghymru. Cymru: Cyngor y Gweithlu Addysg.** Cychwyd o: <https://www.ewc.wales/site/index.php/cy/ystadegau-ac-ymchwyl/ystadegau-r-gweithlu-addysg.html>

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC). (2018). **A yw Cymru'n Decach? Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol 2018.** Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Cychwyd o:

<https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/is-britain-fairer-2018-is-wales-fairer-welsh.pdf>

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. (2019). **Tackling racial harassment: Universities challenged.** Cychwyd o: <https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/tackling-racial-harassment-universities-challenged.pdf>

Estyn. (2017). **Arweiniad atodol: cydraddoldeb, hawliau dynol a Saesneg fel iaith ychwanegol.** Estyn. Adalwyd o: [https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/NIA%2520Supplementary%2520guidance%2520%25E2%2580%2593%2520equality%2520cy\\_0.pdf](https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/NIA%2520Supplementary%2520guidance%2520%25E2%2580%2593%2520equality%2520cy_0.pdf)

Estyn. (2020). **Cynllun Cydraddoldeb Strategol.** Cymru: Estyn. Cychwyd o: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-04/cynllun-cydraddoldeb-strategol-nodau-amcanion-a-chamau-gweithredu-ym-maes-cydraddoldeb-20202024.pdf>

Gillborn, D. (2008). **Racism and Education: Coincidence or Conspiracy?** Abingdon: Routledge.

Goldhaber, D., Theobald, R., a Tien, C. (2015). **The theoretical and empirical arguments for diversifying the teacher workforce: A review of the evidence.** Papur Gweithio CEDR WP

#2015-9. Seattle, WA: Centre for Education Data & Research. Cychwyd o:

<https://eric.ed.gov/?id=ED574302>

Graham, K. (2016). **The British school-to-prison pipeline,** yn Andrews, K. ac L. Palmer (eds) *Blackness in Britain*. Llundain: Routledge.

Hancock, A. M. (2007) **Intersectionality as a normative and empirical paradigm.** *Politics and Gender*, 3(2), 248–254.

Ladsin-Billings, G. (1994). **The dreamkeepers: Successful teachers of African American children.** San Francisco: Jossey-Bass.

Ladson-Billings, G. (2014). **Culturally relevant pedagogy 2.0: Aka the remix.** *Harvard Educational Review*, 34(1), 74-84.

Ogbonna, E. (2020). **Grŵp cynghorol BAME y Prif Weinidog ar COVID-19: adroddiad yr is-grŵp economaidd-gymdeithasol.** Cychwyd o: <https://llyw.cymru/adroddiad-grwp-economaidd-gymdeithasol-covid-19-pobl-dduon-asiaidd-lleiafrifoedd-ethnig>

Osler, A., a Morrison, M. (2002). **Can Race Equality be Inspected? Challenges for Policy and Practice Raised by the OFSTED School Inspection Framework.** British Educational Research Journal vol. 28(3).

<https://dx.doi.org/10.1080/01411920220137421>

Parken, A. (2010) **A multistrand approach to promoting equalities and human rights in policy making.** *Policy and Politics*, 38, 79–99.

Parken, A. (2018). **Rhoi cydraddoldeb wrth wraidd penderfyniadau, Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol: Polisi ac Arfer Rhyngwladol.** Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Parken, A., Davies, N, Minto, R., a Trenow, P. (2019). **Equality Mainstreaming: Policy Development Model.** Cychwyd o: <https://chwaraeleg.com/wp-content/uploads/2019/09/Equality-Mainstreaming-Policy-Development-Model.pdf>

Show Racism the Red Card. (2020a). **Racism in Wales? Exploring prejudice in the Welsh Education system.** Cyrchwyd o:  
<https://www.theredcard.org/s/Racism-in-Wales-Exploring-racism-the-Education-system-May-2020-F.pdf>

Show Racism the Red Card. (2020b). **Exclusions Report 2019 - Exploring punitive responses to racist incidents in Wales' schools.** Cyrchwyd o:  
<https://www.theredcard.org/s/School-exclusions-in-Wales-due-to-racism-report-Feb-2020-E.pdf>

Prifysgolion y DU. (2020). **Tackling racial harassment in higher education.** Cyrchwyd o:  
<https://www.universitiesuk.ac.uk/policy-and-analysis/reports/Documents/2020/tackling-racial-harassment-in-higher-education.pdf>

Llywodraeth Cymru (2019). **Buddsoddi mewn Rhagoriaeth: Ein cynllun datblygu gweithlu cenedlaethol 2019-21.** Llywodraeth Cymru, Cymru. Cyrchwyd o:

<https://llyw.cymru/cynllun-datblygur-gweithlu-2019-i-2021>

Llywodraeth Cymru. (2020a). **Nawr yw'r amser i weithredu yn erbyn anghydraddoldeb hiliol: Llywodraeth Cymru yn gosod llwybr ar gyfer newid systemig a chynaliadwy i Gymru.** Datganiad i'r Wasg. 24 Medi 2020.  
<https://llyw.cymru/nawr-ywr-amser-i-weithredu-yn-erbyn-anghydraddoldeb-hiliol-llywodraeth-cymru-yn-gosod-llwybr-ar>

Llywodraeth Cymru. (2020b). **Addysg yng Nghymru - Cenhadaeth Ein Cenedl.** Cyrchwyd o: <https://llyw.cymru/cenhadaeth-ein-cenedl>

Llywodraeth Cymru. (2020c). **Datganiad Ysgrifenedig: Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin: Profiadau BAME a'r cwricwlwm newydd.** Cyrchwyd o:  
<https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-gweithgor-cymunedau-cyfraniadau-chynefin-profiadau-pobl-dduon-ac-asiaidd>

## Rhagor o wybodaeth

Am yr adroddiad cyflawn, gweler Arday, J. (2020). **Gwella Cydraddoldeb Hiliol ym maes Addysg.** Caerdydd: Canolfan Polisiau Cyhoeddus Cymru.

## Ynglŷn â Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Yma yn y Ganolfan, rydym yn cydweithio gydag arbenigwyr polisi blaenllaw er mwyn darparu tystiolaeth o ansawdd uchel a chyngor annibynnol i weinidogion, y gwasanaeth sifil a gwasanaethau cyhoeddus Cymru sydd yn eu helpu i wella penderfyniadau polisi a deilliannau.

Mae'r Ganolfan, sydd wedi ei hariannu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol

a Llywodraeth Cymru, wedi ei lleoli ym Mhrifysgol Caerdydd ac mae'n rhan o Rwydwaith Beth Sy'n Gweithio y DU.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Manon Roberts**

+44 (0)29 2087 5345

[manon.roberts@wcpp.org.uk](mailto:manon.roberts@wcpp.org.uk)

## Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Prifysgol Caerdydd, 10/12 Plas yr Amgueddfa, Caerdydd, CF10 3BG

 [www.wcpp.org.uk/cy](http://www.wcpp.org.uk/cy)

 029 2087 5345

 [info@wcpp.org.uk](mailto:info@wcpp.org.uk)

 @WCfPP

